

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mehefin 27ain 2022
<b>TEITL</b>	Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
<b>PWRPAS</b>	Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Dewis aelodau newydd i'r Panel Grantiau

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.
- 1.2 Hefyd mae angen dewis aelodau newydd o'r Panel Grantiau.

## **2.0 GWARIANT 2021/22**

- 2.1 Roedd **£100,000** yn y Gronfa ar ddechrau 2021/22 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan. Mae gwybodaeth am y prosiectau eisoes wedi ei ddarparu.

## **3.0 CYLLIDEB 2022/25**

- 3.1 Yn ddiweddar cafwyd cadarnhad fod **£100,000** yn y Gronfa ar gyfer 2022/23, ag yn wahanol i'r arfer cafwyd hefyd wybod fod cyllid o **£100,000** ar gael ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Mae hyn yn rhoi cyfle i brosiectau gael eu hariannu dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd yn hytrach na blwyddyn os oes angen.
- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi newid ychydig ar Reoliadau'r Gronfa gan roi mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant a rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd ar themâu Adfer natur, a Dad-garboneiddio.
- 3.3 Mae'r gwaith o hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio am grant o'r Gronfa eisoes wedi dechrau. Anogir yr aelodau i rannu'r wybodaeth am y Gronfa.

## **4.0 AELODAU PANEL GRANTIAU**

- 4.1 Mae'r amser wedi dod i ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau- y panel fydd yn ymgynnull i ymdrin â phenderfynu ar geisiadau grant dros £3,000.
- 4.2 Yn y gorffennol roedd 8 aelod o'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol wedi eu dewis i fod yn aelodau'r Panel grantiau. Yn dilyn yr arweiniad a roddir yn y Rheoliadau awgrymir yn awr fod 4 aelod oedd yn aelodau blaenorol o'r Panel Grantiau yn parhau a 4 aelod newydd yn cael eu dewis.
- 4.3 Yn y dyfodol y bwriad yw cyfnewid dau aelod o'r Panel grantiau bob dwy flynedd.

## **5.0 ARGYMHELLIAD**

- 5.1 Derbyn y wybodaeth uchod ag ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau